Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Maes Werdd

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru yn adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni a, lle na chaiff y rhain eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
    - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
    - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
    - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/12/2013**

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Maes Werdd |
| **Rhif yr ysgol** | 669/6013 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 21 a 22 Hydref 2013 |
| **Perchennog** | Castlecare Cymru Ltd |
| **Staff** | 1 athro cyflenwi rhan-amser gyda statws athro cymwysedig (SAC) |
| **Nifer y disgyblion** | 1 disgybl |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd yn gysylltiedig â'r cartref plant |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Hydref 2009 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Hydref 2011 |
| **Ymweliad diwethaf gan AGGCC** | Gorffennaf 2013 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Rosemary Lait AEM |
| **Arolygydd Tîm** | Anthony Mulcahy AEM |

## Cyd-destun

Mae Maes Werdd yn un o nifer o ysgolion annibynnol bach sy'n cael eu gweithredu yng Nghymru gan Castlecare Cymru. Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn lleoliad gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgol yn addysgu hyd at dri o fechgyn neu ferched 10 i 16 oed sy'n byw yng nghartref plant cysylltiedig y sefydliad. Gall disgyblion fod â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae athro arweiniol yn goruchwylio darpariaeth addysg ar draws holl ysgolion Castlecare yng Nghymru. Mae Maes Werdd yn cyflogi un athro rhan-amser. Fodd bynnag, gadawodd yr athro parhaol yr ysgol yn ddiweddar i fynd i swydd arall. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cyflogi athro cyflenwi cymwysedig.

Yn ystod yr arolygiad hwn, ni fu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn addysg. Felly nid oedd AEM yn gallu barnu cydymffurfiad yr ysgol â holl Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni chynhaliodd Estyn arolygiad monitro blynyddol yn 2012. Ar y pryd, roedd yr holl bobl ifanc a oedd yn byw yn y cartref plant yn mynychu ysgolion a gynhelir, felly nid oedd Maes Werdd yn darparu addysg.

Ar yr ymweliad hwn, barnodd AEM fod prif flaenoriaethau'r ysgol wedi newid ers arolygiad monitro Estyn yn 2011. Nid yr argymhellion o'r adroddiad hwnnw yw'r materion pwysicaf ar gyfer yr ysgol erbyn hyn.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- caiff disgyblion gyfleoedd i ennill cymwysterau achrededig, er enghraifft TGAU;
- ers yr arolygiad diwethaf, mae'r athro arweiniol wedi cyflwyno system o arsylwadau gwersi ar gyfer pob tymor a darparwyd adborth ysgrifenedig i'r athro blaenorol; ac
- mae'r ystafell ddosbarth a'r ardal awyr agored yn darparu amgylchedd dysgu priodol gydag adnoddau addas.

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- nid oes digon o ffocws ar y ddarpariaeth addysgol ar gyfer pobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol ac, o ganlyniad, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd;

- nid yw staff yr ysgol yn gweithio'n ddigon agos gyda'r tîm gofal i sicrhau bod gan bawb ddull cyson o sicrhau bod y disgyblion yn cymryd rhan mewn addysg. Nid oes unrhyw strategaethau sydd wedi'u cynllunio'n glir sy'n cynnwys y tîm cyfan i fynd i'r afael â'r mater o ddiffyg ymgysylltiad y disgyblion nac unrhyw dystiolaeth o werthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd;

- er bod staff yr ysgol yn darparu amserlen, nid ydynt yn darparu cynlluniau manwl ar gyfer gwersi gydag amcanion dysgu eglur i staff eraill eu darparu. Nid ydynt yn adolygu deilliannau gweithgareddau a gwersi nad ydynt wedi darparu eu hunain yn uniongyrchol; ac

- nid yw'r ysgol bob amser yn gweithredu ei pholisïau a gweithdrefnau'n ddigon da. Er enghraifft, mae polisi ysgrifenedig i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion sy'n amlinellu'r cosbau i'w mabwysiadu pe byddai'r disgyblion yn camymddwyn. Fodd bynnag, nid yw'r staff wedi gweithredu'r polisi'n gyson. Nid yw'r polisi'n rhoi digon o bwyslais ar wobrwyo ymddygiadau priodol.

## Argymhellion

**A1** Sicrhau cydymffurfiad â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

**A2** Gweithio gyda staff gofal i ddatblygu strategaethau a chysondeb o ran gwella presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion mewn addysg

**A3** Sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr yn hyrwyddo gwerth yr addysg a ddarperir, i'r holl staff a disgyblion, fel y bydd disgyblion yn deall ei bod yn bwysig a buddiol

**A4** Cynllunio rhaglen o weithgareddau a fydd yn ennyn diddordeb disgyblion a gwella eu hymdeimlad o les

**A5** Cyflwyno system wobrwyo fwy strwythuredig i annog ymddygiad da a phresenoldeb da, a sicrhau bod yr holl staff yn ei defnyddio'n gyson

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu diwethaf

**Argymhelliad 1:** Sicrhau bod staff addysgu yn elwa ar system fonitro a gwerthuso reolaidd sy'n canolbwyntio ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion

Mae rhy ychydig o dystiolaeth i lunio barn mewn perthynas â'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 2:** Sicrhau bod arsylwadau dosbarth yn arwain at adborth a phwyntiau gweithredu ysgrifenedig ar gyfer athrawon

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r athro arweiniol wedi cyflwyno system o arsylwadau ystafell ddosbarth a darparu adborth ysgrifenedig i'r athro. Fodd bynnag, nid yw'r athro hwnnw yn y swydd bellach ac nid oes athro parhaol wedi cymryd eu lle. Felly, nid yw'r system yn weithredol ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 3:** Sicrhau bod yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol yn cysylltu'n agos â'i gilydd a bod gan y cynllun flaenoriaethau a meini prawf llwyddiant eglur

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi llunio adroddiad hunanarfarnu manwl sydd wedi'i gysylltu'n agos â'r cynllun gwella ysgol. Fodd bynnag, mae symudiad sylweddol ym mhoblogaeth disgyblion yr ysgol a hefyd bu newidiadau ymhlith y staff. O ganlyniad, mae'n anodd i'r athro arweiniol sicrhau bod yr adroddiad hunanarfarnu, a thargedau yn y cynllun gwella, bob amser yn berthnasol i'r sefyllfa ddiweddaraf. Mae'r adroddiad yn ddisgrifiadol ac nid yw'n cynnwys digon o arfarnu.

**Argymhelliad 4:** Sicrhau bod mwy o fynediad i adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar gyfer athrawon a dysgwyr

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi trefnu darpariaeth briodol ar gyfer adnoddau TGCh ar gyfer athrawon a dysgwyr. Mae cyfrifiadur yn yr ystafell ddosbarth sydd â mynediad i'r rhyngrwyd.

**Argymhelliad 5:** Sicrhau bod marcio'n rhoi cyngor cyson i ddisgyblion ar sut i wella eu perfformiad.

Mae rhy ychydig o dystiolaeth i lunio barn mewn perthynas â'r argymhelliad hwn.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'n llawn y gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau bod y polisi cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a'i fod yn cael ei weithredu'n effeithiol; [1(2)]
- darparu addysg amser llawn dan oruchwyliaeth ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol; [1(2ai)]
- rhoi profiad i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn y meysydd dysgu canlynol: ieithyddol, mathemategol, gwyddonol, technolegol, dynol a chymdeithasol, corfforol, ac esthetig a chreadigol; [1(2aii)]
- sicrhau bod y deunydd pwnc yn briodol ar gyfer oedran a gallu'r disgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny â datganiad; [1(2b)]
- sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu cyfle i bob disgybl ddysgu a gwneud cynnydd; [1(2i)] a
- paratoi disgyblion yn ddigonol ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn. [1(2j)]

Nid oedd AEM yn gallu barnu cydymffurfiad yr ysgol â'r rheoliadau'n ymwneud ag addysgu ac asesu [1(3a-f)] oherwydd ni fu'r disgybl yn cymryd rhan mewn addysg yn ystod yr arolygiad.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Nid oedd AEM yn gallu barnu cydymffurfiad yr ysgol â'r rheoliadau'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion [2 (a-d)] oherwydd ni fu'r disgybl yn cymryd rhan mewn addysg yn ystod yr arolygiad.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'n llawn y gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- weithredu polisi ysgrifenedig mewn perthynas ag iechyd a diogelwch disgyblion mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn fwy effeithiol; [3(2c)]
- paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion sy'n amlinellu'r cosbau i'w mabwysiadu pe byddai'r disgyblion yn camymddwyn; [3(2c)]
- trefnu staff mewn modd sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu goruchwylio'n briodol; [3(7)]
- cadw cofnod ysgrifenedig o gosbau a osodwyd ar ddisgyblion am droseddau disgyblu difrifol sydd ar wahân i'r cofnodion a gedwir gan y cartref plant; [3(8)] a
- chynnal cofrestr derbyn yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995. [3(9)]

**Safon 4: Addasrwydd perchenogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'n llawn y gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau bod gwybodaeth ynghylch nifer y staff a gyflogir yn yr ysgol, gan gynnwys staff dros dro, a chrynodeb o'u cymwysterau ar gael i rieni a darpar rieni. [6(2ng)]

**Safon 7: Y dull o drafod cwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestru'r ysgol hon, mae'n bosibl y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- nid yw'r ysgol ar hyn o bryd yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodir uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau'r arolygwyr o'r arolygiad monitro blynyddol hwn ddylanwadu ar ganfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.